**Canllawiau Digwyddiadau'r Cynulliad**

- rhaid i geisiadau i ddefnyddio'r mannau cyhoeddus a'r ystafelloedd cyfarfod gael eu noddi gan Aelod o'r Cynulliad. Mae'n rhaid i'r Aelod Cynulliad sy'n noddi'r digwyddiad, neu ei gynrychiolydd, fynychu'r digwyddiad/arddangosfa/cyfarfod;
- mae'r Senedd a'r Pierhead yn fannau cyhoeddus ac ni ellir eu hynysu ar gyfer digwyddiadau pan mae'r Cynulliad ar agor i'r cyhoedd;
- mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd gyda'r Aelod Cynulliad sy'n noddi'r digwyddiad;
- ni ddylid defnyddio'r mannau ar ystad y Cynulliad lle y cynhelir y digwyddiad i wneud elw ariannol ond gellir eu defnyddio i lansio llyfrau ac adroddiadau, er na chaiff arian newid dwylo;
- ni chaniateir i artistiaid sy'n arddangos eu gwaith celf ddangos pris eu gwaith;
- ni ddylai arddangoswyr osod eu harddangosfa na phrofi unrhyw offer clyweledol pan fydd y Cynulliad yn eistedd. Cysylltwch â'ch Swyddog Digwyddiadau i drefnu hyn;
- cyfyngir ar y defnydd o'r system sain mewn digwyddiadau sy'n cael eu cynnal ar ddiwrnodau busnes;
- edrychwch ar y cyfeirlyfr, Digwyddiadau'r Cynulliad: A-Y i weld faint o bobl y mae'r ystafell lle cynhelir eich digwyddiad yn eu dal;
- ni ddylai cynnwys digwyddiadau fynd yn groes i Bolisi Cyfle Cyfartal y Cynulliad na thorri unrhyw ddeddfwriaeth, yn cynnwys is-ddeddfau;
- ni ddylai digwyddiadau a chyfarfodydd gynnwys hysbysebion na deunydd masnachol na ddeunydd sy'n debygol o dramgwyddo. Ni ddylent ychwaith gynnwys deunydd sydd â'r bwriad o hyrwyddo amcanion unrhyw blaid neu grŵp gwleidyddol;
- ni ddylid trefnu digwyddiad sydd â'r unig fwriad o hyrwyddo gwaith unrhyw blaid wleidyddol;
- ni chaniateir logos corfforaethol ond fel rhan o gytundeb nawdd gyda sefydliad cyhoeddus. Ni chaniateir unrhyw fath arall o hyrwyddo masnachol;
- sicrhewch fod eich gwahoddiadau, hysbysiadau neu gylchlythyrau yn cael eu hanfon yn enw'r Aelod Cynulliad sy'n noddi'r digwyddiad, gan sicrhau hefyd fod ei enw i'w weld yn glir ar bob deunydd hyrwyddo. Ni chaniateir defnyddio logo Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar unrhyw wahoddiadau na deunydd hyrwyddo. Mae'n ofynnol i staff y Cynulliad gymeradwyo bob gwahoddiad cyn eu hanfon.
- ni chaniateir is-osod yr ardal ddigwyddiadau;

- y trefnwyr sy’n gyfrifol am logi unrhyw offer neu ddodrefn arbenigol sydd eu hangen ar gyfer eu digwyddiadau neu arddangosfeydd;
- rhaid trefnu’r holl luniaeth drwy Charlton House, arlwywyr mewnol y Cynulliad. Gellir cysylltu â hwy ar (029) 20 898077 neu Catering.cardiffbay@wales.gsi.gov.uk;
- caiff ceisiadau am ddigwyddiadau nad ydynt yn cydymffurfio â’r polisi y cytunwyd arno eu cyfeirio at Rwydwaith Digwyddiadau’r Cynulliad i’w hystyried. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau i roi rhybudd priodol ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn cydymffurfio.
- Prif ddiben ystad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw cynnal busnes y Cynulliad; eilaidd yw’r defnydd o’r adeilad fel rhywle i gynnal digwyddiadau neu arddangosfeydd, ac ni ddylai hyn amharu mewn unrhyw ffordd ar y prif ddefnydd. O ganlyniad, efallai nad yw’r Senedd yn briodol ar gyfer rhai digwyddiadau neu ar gyfer rhai arddangosfeydd mawr.